

Cais am Awdurdodiad i Swyddogion Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr Ardystio Allforion i'r UE

Mae'n rhaid i swyddog Awdurdod Lleol (ALI) ym Mhrydain Fawr gael ei awdurdodi gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) cyn y gall ardystio Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (POAO)¹ i'w hallforio i'r UE. Rhoddir awdurdodiad² i unigolion y darperir eu manylion yn gywir ar y ffurflen hon pan gaiff ei llofnodi gan Swyddog Bwyd Arweiniol sy'n cadarnhau eu bod yn bodloni'r gofynion yn ôl y Polisi ar gyfer Awdurdodi Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd.

Adran 1: Personau i'w hychwanegu at y gofrestr o Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd awdurdodedig (noder ei bod yn rhaid cwblhau pob un o'r meysydd yn y tabl isod)

Nodwch fanylion swyddog(ion) yr ALI y mae angen awdurdodiad arnynt yn y tabl isod (noder bod angen i Swyddogion Bwyd Arweiniol gael eu hawdurdodi hefyd ac y dylid eu cynnwys). Mae'n **rhaid** i bob person fod yn swyddog awdurdodedig yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol³ ac mae'n **rhaid** ei fod wedi darllen y Canllawiau ar gyfer Allforion i Drydydd Gwledydd⁴:

Teitl	Enw Cyntaf a Blaenlythrennau	Cyfenw	Cyfeiriad E-bost yr Unigolyn ar gyfer Gohebiaeth Swyddogol	Yn Gymwys ym maes Bwyd yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Ydy/Nac ydy)	Wedi darllen y Canllawiau ar gyfer Allforion i Drydydd Gwledydd? (Ydy/Nac ydy)

¹ Gall Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ardystio allforion lle y caniateir hynny gan yr UE a lle mae'r Swyddog yn gymwys i wneud hynny.

² Mae Swyddogion Ardystio awdurdodedig yn gweithredu ar ran Awdurdodau Cymwys Canolog (h.y. Ysgrifennydd Gwladol Defra a Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig fel y bo'n briodol), fel Swyddog Ardystio ar gyfer Cyflwyno Tystysgrifau Iechyd Allforio Swyddogol o Gynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid.

³ Fel y'i pennwyd gan y wlad rydych wedi eich awdurdodi ynddi.

⁴ Mae'r canllawiau ar gael yn: <https://fsa.riams.org/resource/files/548> neu, yn yr Alban, fel y'u rhoddwyd mewn neges e-bost gan yr FSS.

Adran 2: Personau i'w dileu o'r gofrestr o Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd awdurdodedig (noder ei bod yn rhaid cwblhau pob un o'r meysydd yn y tabl isod)

Teitl	Enw Cyntaf a Blaenlythrennau	Cyfenw	Cyfeiriad E-bost ar gyfer Gohebiaeth Swyddogol	Rheswm

Gellir ehangu'r tabl hwn er mwyn ychwanegu rhesi ychwanegol.

Adran 3: Manylion yr Awdurdod Lleol neu Unedol (noder ei bod yn rhaid cwblhau pob un o'r meysydd isod)

Enw'r Awdurdod Lleol neu Unedol:

Adran:

Cyfeiriad Post yr Awdurdod Lleol neu Unedol:

Cod Post

Rhif Ffôn Cyswllt:

Enw'r Swyddog Bwyd Arweiniol mewn PRIFLYTHRENNAU:

Cyfeiriad E-bost y Swyddog Bwyd Arweiniol:

Llofnod y Swyddog Bwyd Arweiniol:

Dyddiad:

Datganiad gan y Swyddog Bwyd Arweiniol:

Drwy lofnodi a chyflwyno'r ffurflen hon cadarnhaf fy mod yn Swyddog Bwyd Arweiniol neu wedi fy awdurdodi i weithredu fel Swyddog Bwyd Arweiniol a bod y person(au) a restrir uchod ar gyfer dynodiad wedi'u cyflogi neu'u contractio gan yr Awdurdod Lleol hwn a'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn ôl y Polisi ar gyfer Awdurdodi Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd. Cadarnhaf eu bod wedi darllen a deall y Canllawiau Allforio a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Food Standards Scotland ac aelodau o Weithgor Allforion y DU ac fel y cânt eu diwygio o bryd i'w gilydd.

Derbynnir llofnodion a gwblhawyd yn electronig (e.e. wedi'u teipio) os bydd y ffurflen yn cael ei chyflwyno gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost unigol Awdurdod Lleol y Swyddog Bwyd Arweiniol.

Ar ôl ei chwblhau, anfonwch y ffurflen drwy **e-bost** i CSCOneHealthOVTeam@apha.gov.uk gan nodi'r canlynol yn y **blwch pennawd**: 'Ffurflen ET180 wedi'i chyflwyno ar gyfer (Nodwch Enw'r Awdurdod Lleol neu Unedol)'.

DIOGELU DATA

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Personol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.